'Dwi wedi dweud erioed mai Cardi ydw i, a dwi'n falch iawn o fod yn Gardi, er bod pobol yn dweud ein bod ni'n deit -gofalus ydan ni!! Ond mae wedi bod yn dasg anodd tu hwnt dewis fy hoff rhan o Gymru. Dwi 'di teithio i bob rhan o'r wlad fach arbennig yma ac mae yna nifer rhan o Gymru sy'n apelio'n fawr, yn enwedig y dyffrynnoedd. Fy hoff un ydi dyffryn Tanat yn Sir Drefaldwyn.

Mae yna nifer o rhesymau am hyn, mae'r bobol yn glên iawn ac yn berchen ar 'fwynder Maldwyn', mae amser ganddyn nhw, yn wahanol i bobol mewn rhannau eraill o Gymru. Mae tirwedd Dyffryn Tanat yn anhygoel, a'r golygfeydd yn amhrisiadwy. Mae'n ardal ffrwythlon a digon o ddynion stoc da yn byw yno.

Mae pob un o gymeriadau cefn-gwlad yn agos iawn at fy nghalon, ond does dim amheuaeth gennyf pwy sy'n sefyll allan; dydw i heb weld unrhywun tebyg erioed a dwi'm yn meddwl y gwelai unrhywun tebyg eto –Don Garreg Ddu o Lanrhaeadr ym Mochant, anferth o ddyn ac yn rêl ffarmwr a chanddo ddwylo fel rhofiau, cawr o ddyn ond mor fwyn ag oen bach newydd ei fagu.

I have always said that I am a 'Cardi', and I'm very proud to be a 'Cardi' although some people call us 'tight' – we're just careful!! But it has been a very difficult task to choose my favourite part of Wales. I've travelled throughout this very special small country and there are many regions of Wales which appeal greatly, especially valleys. My favourite valley is the Tanat Valley in Montgomeryshire.

There are many reasons for this, the people are very welcoming and have that gentle nature which is a trait of Montgomery; they have plenty of time for you, which is different to other parts of Wales. The landscape of the valley is amazing, and the views are unique. It's a very fertile area full of good stock farmers.

I have a special place in my heart for all the characters of rural Wales, but I have no doubt who stands out; I have never met anyone like him, and I don't think I ever will – Don Garreg Ddu from Llanrhaeadr y Mochnant. A huge man and a real farmer, with hands like shovels, a giant of a man but as gentle as a new born lamb.

*...beth sy'n arbennig am gefn gwlad Cymru – y bobol*

*...what's unique about rural Wales – the people.*

# Dai Jones

Dyna beth sy'n arbennig am gefn gwlad Cymru - y bobol. Mae nhw'n deall cefn gwlad a chadwraeth, does dim angen rheolau di-ri o Ewrop i ofalu am gefn-gwlad. Hoffwn weld ffermydd yn cael eu cadw'n unedau cyfan er mwyn i bobl ifanc gael cyfle i ffermio. Mae angen cymorth arnyn nhw i fedru fforddio byw yng nghefn-gwlad. Dwi ddim yn hoff o weld ffermydd mawr o felinau gwynt - rwy'n teithio'n helaeth ac maen nhw'n anharddu llawer o ardaloedd prydfertha Cymru. Mae pob dim sydd angen ar ddyn, o'r eiliad y caiff ei eni yma yng Nghymru, cymdeithas gyfoethog, iaith a dwylliant unigryw, ar tirlun perta'n y byd.

That's what's unique about rural Wales – the people. They understand the countryside and conservation, there's no need for unending European regulations to care for the countryside. I would like to see farms kept as complete units to give young people an opportunity to get on the farming ladder. They need assistance to enable them to afford to live in the countryside. I'm not keen on large wind-farms – I travel a great deal and they are a blot on many of Wales' most outstanding landscapes. Everything that a man needs from the day he is born until he dies, is here – good company, an unique language and culture, and the most fabulous landscapes in the world.

Llun drwy garedigrwydd S4C/kind permission of S4C